

# Adroddiad Blynyddol Gwasanauthau Cymdeithasol 2017/18



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr</b>	<b>2</b>
<b>Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau</b>	<b>4</b>
<b>Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai yr Ydym yn eu Helpu</b>	
• Safon Ansawdd 1	9
• Safon Ansawdd 2	10
• Safon Ansawdd 3	12
• Safon Ansawdd 4	14
• Safon Ansawdd 5	16
• Safon Ansawdd 6	18
<b>Sut Rydym yn Gwneud yr Hyn a Wnawn</b>	
- Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol	20
- Ein Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd	17
- Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym ni'n Cynllunio ar gyfer y Dyfodol	22
- Ein Hadnoddau Ariannol a Sut ydym ni'n Cynllun ar gyfer y Dyfodol	23
<b>Casgliad</b>	<b>24</b>
<b>Mynediad at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol</b>	<b>25</b>
• Dogfennau Defnyddiol	
• Gwefannau Defnyddiol	
• Darparu Adborth	



**Croeso i Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2017/18. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Adran wedi bod yn datblygu'r adroddiad blynyddol hwn i dynnu sylw at y meysydd allweddol o welliannau a heriau a wynebwyd**

Datblygwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWB), y cyfeirir ato fel 'y Ddeddf' trwy gydol y ddogfen hon. Nod y Ddeddf yw darparu'r newid mwyaf radical i'r ffordd yr ydym yn darparu Gwasanaethau Cymdeithasol ers 1948. Mae'n canolbwyntio ar wella llesiant pobl sy'n dod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gymorth. Mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar atal a lleihau'r angen am ofal a chymorth. Mae'n cydnabod bod cyfrifoldeb yn gorwedd nid yn unig yn Adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ond yn yr Awdurdod Lleol ehangach a chyda'n partneriaid (yn arbennig iechyd a'r trydydd sector).

Mae'r Ddeddf yn rhannu egwyddorion tebyg gyda nifer o strategaethau cenedlaethol / rhanbarthol allweddol a weithredir ledled y Cyngor, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau, i werthuso ei berfformiad a hefyd cynnwys gwersi a ddysgwyd. Agwedd allweddol o'r adroddiad yw dangos sut yr ydym wedi gweithredu'r chwe safon ansawdd mewn perthynas â chanlyniadau llesiant.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg strategol o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud drwy gydol 2017/18 a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud wrth symud ymlaen. Gellir dod o hyd i wybodaeth ategol bellach ar dudalen 22 yr adroddiad.

Drwy gydol yr adroddiad, rydyn ni wedi ceisio dangos lle rydym ni wedi cydweithio â phartneriaid a lle rydym wedi casglu barn defnyddwyr gwasanaeth er mwyn darparu gwasanaethau gwell sy'n cwrdd ag anghenion pobl leol. Rhennir yr adroddiad gydag asiantaethau partner i rannu ein dysgu a'n profiadau.

Ystyriwyd profiadau a dysgu gan ddefnyddwyr gwasanaeth fel rhan o ddatblygiad yr adroddiad. Cynhwyswyd defnyddwyr gwasanaeth trwy nifer o fforymau megis y Grŵp Gofalwyr, y Fforwm 50+ a'r Grŵp Gofalwyr Ifanc. Dosbarthwyd hefyd holiadur, sy'n ofynnol fel rhan o'r Ddeddf, i blant, rhieni, oedolion a gofalwyr. Ystyriwyd canfyddiadau'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), astudiaethau achos, cwynion a chanmoliaeth fel rhan o ddatblygiad yr adroddiad hwn a defnyddiwyd tystiolaeth o'r rhain i lywio dysgu yn y dyfodol.

Defnyddir yr adroddiad blynyddol i ddangos atebolrwydd i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Fel rhan o'r broses hon, cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor llawn i'w gadarnhau cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i anfon wedyn i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad ar gael ar-lein yn ddwyieithog.



# Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mlaenau Gwent, rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2017/18, sy'n ofyniad i Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Deddf).

Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, teuluoedd a sefydliadau partner ynghyd â chwynion a chanmoliaeth yn ogystal â holiaduron y Ddeddf oll yn gyfleoedd dysgu a datblygu pwysig i'r Gyfadran. Bydd hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleol ac yn rhanbarthol trwy banel y dinesydd. Rydym yn ystyried cwynion a chanmoliaeth fel cyfle gwych i'r Gyfarwyddiaeth wella'r gwasanaethau a phrofiad y defnyddiwr gwasanaeth wrth symud ymlaen (Gweler y bennod ar Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau).

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rydym wedi parhau i fuddsoddi yng ngwybodaeth a dysgu ein staff Rheoli Gofal trwy bresenoldeb mewn Hyfforddiant Canlyniadau a chydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru i nodi arfer gorau ac arddangos enghreifftiau lle rydym wedi cefnogi dinasyddion i gyflawni eu canlyniadau. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn i'r canlyniadau a brofir gan Bobl Hŷn mewn Cartrefi Gofal ar draws Blaenau Gwent.

Mae diogelu plant, teuluoedd ac oedolion sy'n agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen i'r Gyfadran. Roedd diogelu plant yn thema arolygu CIW ym mis Chwefror a Mawrth 2018. Rydym wedi derbyn adroddiad drafft sy'n nodi gwaith cadarnhaol y Gyfadran ac ni nodwyd unrhyw bryderon diogelu sylweddol yn ystod eu harolygiad.

Mae'r strategaeth 3 blynedd o Leihau Plant sy'n Derbyngofal (LAC) wedi bod yn ei le am 9 mis ac fe'i cefnogir gan gynllun gweithredu clir sy'n cael ei adolygu bob chwarter fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Sefydlwyd y Strwythur Teuluoedd yn Gyntaf newydd ers blwyddyn a chafodd dderbyniad da gan staff Teuluoedd yn Gyntaf ac asiantaethau partner. Cymeradwywyd datblygiad Tîm Cefnogi Newid ym mis Gorffennaf 2017 i weithio gyda phlant a theuluoedd ar ymyl gofal ac mae wedi bod yn weithredol ers mis Ionawr 2018. Mae gwasanaeth mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) wedi ymgymryd â nifer o ymgyrchoedd recriwtio trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu nifer y mabwysiadwyr sydd ar gael ar gyfer ein LAC gyda chynllun i'w mabwysiadu; fodd bynnag, nid yw'n cwrdd â'r galw o hyd a chynhelir cynlluniau i barhau gyda'r ymgyrchoedd recriwtio drwy gydol 2018/19. Mae perfformiad SEWAS yn gyffredinol yn dda iawn.

Yn rhanbarthol, mae Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i edrych ar gyfleoedd cydweithio ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac maent wedi bod yn datblygu nifer o bapurau cwmpasu a fydd yn dwyn ffrwyth yn ystod y misoedd nesaf. Gwnaed gwaith hefyd i archwilio datblygiad Gwasanaeth Maethu rhanbarthol wrth symud ymlaen.

Yn y Gwasanaethau Oedolion cwblhawyd adolygiad o swyddi a ariennir gan Cefnogi Pobl o fewn y Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth e.e. Mind (iechyd meddwl) a Hafan Cymru (diogelu). Mae'r adroddiad wedi nodi canlyniadau positif ar gyfer dinasyddion a Gwasanaethau Oedolion ehangach. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal eilaidd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu model ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol / Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi'r agenda atal ledled Blaenau Gwent.

Mae Cyngor Blaenau Gwent, ynghyd â llawer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, yn wynebu problemau ariannol difrifol ac mae Gwasanaethau Cymdeithasol, fel pob un o Wasanaethau'r Cyngor, wedi gorfod gwneud toriadau i sicrhau bod yr awdurdod yn darparu cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18. Mae'r cynnydd parhaus yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) wedi cael effaith andwyol ar sefyllfa'r gyllideb o fewn y Gwasanaethau Plant gyda gorwariant o £2.5 miliwn yn 2016/17. Derbyniodd y Gyfarwyddiaeth £2 filiwn ychwanegol at gyllideb sylfaenol y Gwasanaethau Plant i gwmpasu'r pwysau hwn o fewn 2017/18 ac er bod cryn waith wedi cychwyn gyda gweithredu strategaeth LAC Lleihad Diogel, mae'r cynnydd wedi arwain at orwariant mewn cyllideb LAC oedd yn £956K ar ddiwedd mis Mawrth 2018.

Yr her ar gyfer 2018/19 fydd parhau i reoli'r galw a gwneud mwy gyda llai. Byddwn yn cynnal nifer o adolygiadau o fewn rhai o'r gwasanaethau a ddarparwn yn fewnol. Byddwn yn edrych i archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio lle bydd yn gwella llesiant dinasyddion Blaenau Gwent ac mae'n iawn gwneud hynny.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn eich helpu i ddeall sut rydym yn cefnogi a diogelu plant, pobl ifanc, dinasyddion, gofalwyr a'u teuluoedd ym Mlaenau Gwent a sut y byddwn yn parhau i ymdrechu i wella ein gwasanaethau.



**Damien McCann**

Cyfarwyddwr Corfforaethol  
Gwasanaethau Cymdeithasol



**Cllr John Mason**

Aelod Gweithredo  
Gwasanaethau Cymdeithasol

# Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau

Yn ystod 2017/18 parhaodd Blaenau Gwent i weithredu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol angenrheidiol y mae'r Ddeddf yn eu gwneud yn ofynnol er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu siapio'n unigol gan y bobl sy'n eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ffyrdd yr ydym yn ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr, teuluoedd a sefydliadau partner, tra'n annog pob un i roi adborth y gellir ei ddefnyddio i lunio a gwella gwasanaethau. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'w defnyddwyr a gweithredwyd sawl dull ymgysylltu trwy gydol y flwyddyn er mwyn cyflawni hyn, mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi isod.

## Holiaduron / Arolygon

- Cynhaliwyd arolwg gyda'r plant a'r teuluoedd sy'n defnyddio cyfleuster Beaufort Road mewn ymgais i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau ymhellach. Yr adborth a dderbyniwyd oedd bod plant hŷn yn teimlo bod yr ystafelloedd yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar iawn ac o ganlyniad i hyn mae'r ystafelloedd wedi'u had-drefnu gydag un ystafell wedi'i had-drefnu fel ystafell ieuencid. Mae'r lle chwarae awyr agored hefyd yn cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o greu cyfleoedd chwarae mwy heriol, o well ansawdd ac ysgogol sy'n annog plant i dreulio mwy o amser y tu allan ac i ryngweithio ag aelodau o'r teulu.
- Comisiynwyd y Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuencid (NYAS) i gynnal arolygon gyda'n plant a phobl sy'n gadael gofal er mwyn dysgu o'u profiadau mewn gofal ac i siapio cyflenwi gwasanaethau. Mae rhai o'r newidiadau yn y gwasanaeth wedi cynnwys: ailstrwythuro'r timau gofal plant i leihau nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd gan y plentyn; datblygu cynlluniau sy'n gyfeillgar i blant; a datblygu offeryn penderfynu dirprwyedig sy'n amlinellu'n glir pwy all wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r amrywiol agweddau ar fywyd y plentyn.
- Cychwynnodd ymgynghoriad ym mis Mawrth 2018 a bydd yn dod i ben ym mis Mai 2018 ynghylch darpariaeth Hirdymor Cludiant a Gynorthwyr yn yr ardal. Nod yr ymgynghoriad yw: sicrhau bod cynifer o bobl â phosib yn ymwybodol o'r polisi cludiant arfaethedig; darparu gwybodaeth glir am y newidiadau sy'n cael eu cynnig; sicrhau bod gan bobl yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i roi barn wybodus; annog pobl i roi eu barn ar y cynigion; a chasglu ac ystyried adborth cyn gwneud penderfyniad terfynol.
- Fel rhan o'r Ddeddf, gwahoddwyd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth i gwblhau arolwg blynyddol mewn perthynas â darparu gofal a chymorth. Roedd nifer yr holiaduron a ddychwelwyd ar gyfer plant, rhieni a gofawyr yn isel. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal holiadur arall eto yn nes ymlaen. Fodd bynnag, bydd yr adborth o'r arolwg yn cael ei ddefnyddio i lywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Darperir yr ymatebion isod:

## Ymatebion Plant

O ran y Gwasanaethau Plant, anfonwyd 621 o holiaduron at blant a dychwelwyd 92, gan wneud cyfradd ymateb o 16%. Mae hyn yn is na'r gyfradd ymateb ofynnol i alluogi cymhariaeth ystadegol ddibynadwy gydag awdurdodau lleol eraill (byddai hyn yn 55% sy'n cyfateb i 341 o holiaduron). O'r rhai a ymatebodd i'r holiadur, roedd 49% yn 7-14 oed a 51% rhwng 15 a 17 oed. Roedd yr ymatebion o'r holiadur Plant yn gadarnhaol yn bennaf, gyda chanrannau uchel yn cytuno â phob cwestiwn.

O'r ymatebion:

- Dywedodd 88% o blant oed ysgol uwchradd eu bod yn byw mewn cartref lle maent yn hapus; mae 85% yn hapus gyda theulu, ffrindiau a chymdogion; ac mae 90% yn teimlo eu bod yn derbyn gofal ac yn ddiogel.
- Teimlai tri chwarter y gwrandewir ar eu barn am ofal a chymorth.
- Teimlai 68% y gallant wneud y pethau maen nhw'n hoffi eu gwneud. Dywedodd 92% bod gwrandawriad ar eu barn am ofal a chymorth.
- Mae 96% wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd ac roedd 89% yn cael eu trin â pharch.

- O'r ymatebion a dderbyniwyd gan blant oedran cynradd, mae 88% yn hapus gyda'r bobl o'u cwmpas gyda 96% yn ymateb eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn gofal ac yn ddiogel.
- Yr ymatebion isaf a dderbyniwyd oedd 68% yn teimlo y gallant wneud y pethau maen nhw'n hoffi eu gwneud. Ymatebodd 26% weithiau a 6% ddim yn gwybod.
- Gofynnwyd i'r bobl ifanc 16 ac 17 oed a oedd ganddynt y cyngor, y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolion. Dim ond 52% a ymatebodd 'oes', 22% 'weithiau', 11% 'nagoes' a 15% 'ddim yn gwybod'.

### **Ymatebion Rhieni**

Anfonwyd 435 o holiaduron at rieni i gasglu barn mewn perthynas ag un cwestiwn. Roedd cyfradd ymateb isel gyda dim ond 44 o ymatebwyr yn dychwelyd eu holiadur, 12 yn fwy na'r llynedd. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 11%. Byddai'r ymateb hwn yn cael ei ystyried yn rhy isel ar gyfer dibynadwyedd ystadegol.

O'r ymatebion, dywedodd 58% o rieni eu bod wedi cymryd rhan yn weithredol ym mhob penderfyniad ynghylch sut y darparwyd gofal a chymorth i'w plentyn / plant gyda 33% yn adrodd 'weithiau' a 7% yn adrodd 'na'. Roedd 81% o'r ymatebwyr yn fenywod a 19% yn ddynion.

### **Ymatebion Oedolion**

O ran Gwasanaethau Oedolion, anfonwyd 664 o holiaduron i oedolion 18 oed a throsodd gyda 249 o ymatebion wedi'u derbyn. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 37.5%, a oedd yn uwch na'r gyfradd ymateb ddisgwyliedig o 25% a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru. O'r rhai a ymatebodd, roedd y mwyafrif rhwng 65 ac 85 oed (82% o ymatebwyr).

O'r ymatebion:

- Dywedodd 81% o'r ymatebwyr eu bod yn byw mewn cartref a oedd yn cefnogi eu llesiant ac adroddodd 82% eu bod yn hapus gyda chefnogaeth gan deulu, ffrindiau a chymdogion.
- Dim ond 38% o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo y gallent wneud y pethau a oedd yn bwysig iddynt a dywedodd 46% mai weithiau oedd hyn.
- Mae 41% yn teimlo'n rhan o'r gymuned.
- Mae 75% yn teimlo'n ddiogel o fewn a thu allan i'r cartref.
- Mae 88% yn gwybod pwy i gysylltu â hwy am eu gofal a chymorth ac roedd gan 80% y wybodaeth gywir pan roedd ei hangen arnynt ac roeddent wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cefnogaeth. Mae 86% yn hapus gyda'r gofal a'r gefnogaeth a gawsant.
- Mae 98% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith ac roedd 94% yn teimlo eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch.
- O'r rhai sy'n byw mewn cartref gofal preswyl, ymatebodd 74% eu bod yn dewis byw yno.
- Gofynnwyd i'r rhai 18-24 oed a oedd ganddynt y cyngor, y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolion. Ymatebodd 75% 'oedd' a 25% 'nac oedd'.

### **Ymatebion Gofalwyr**

Anfonwyd holiaduron at ofalwyr a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y cyd gyda'r person sy'n derbyn gofal. Derbyniwyd 10 ymateb o 22 holiadur a anfonwyd; mae'r nifer isel o ofalwyr yn ystyried bod y canlyniadau'n ystadegol annibynadwy i gymharu'n genedlaethol, ond mae'r ymatebion a'r sylwadau'n werthfawr i'r gwasanaeth. Teimlai 86% o ofalwyr eu bod wedi bod yn rhan o'r holl benderfyniadau ynghylch sut y darperir y gofal a'r gefnogaeth, i'r person y maent yn gofalu amdanynt.

Yr ydym ni, fel cymaint o awdurdodau eraill, wedi codi gyda Llywodraeth Cymru p'un ai holiadur yw'r ffordd fwyaf priodol o gasglu gwybodaeth gan blant, rhieni a gofalwyr a gan fod adolygiad ar hyn o bryd yn edrych ar wybodaeth am berfformiad, yna gobeithio y byddant yn ystyried ffyrdd eraill o gasglu gwybodaeth gan y grwpiau hyn yn arbennig.

## Ymgysylltu

- Mae Tîm Recriwtio ac Asesu Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) yn parhau i recriwtio'n rheolaidd i uchafu argaeledd lleoliad a'r dewis ar gyfer plant sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Bellach mae cysylltiadau sefydledig gyda'r Swyddogion Cyfathrebu ar draws y pum awdurdod lleol sy'n hysbysebu'n lleol. Yn ogystal ag ymgyrch recriwtio mis Hydref, cynhaliodd SEWAS ymgyrch arall ym mis Mawrth 2018, a oedd yn cynnwys hysbysebion radio a chyfryngau cymdeithasol lleol. Mae SEWAS hefyd wedi comisiynu cwmni marchnata arbenigol i wneud y mwyaf o weithgarwch hysbysebu wrth symud ymlaen.
- Mae'r Tîm Cefnogi Pobl a'r Tîm 14+ wedi gweithio mewn partneriaeth i ariannu a recriwtio Swyddog Cyfryngu a Chefnogi Pobl Ifanc i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Tîm Cefnogi Pobl, Atebion Tai, Tîm 14+ a'r darparwr cymorth, Gwalia, yn parhau i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu mwy o opsiynau cymorth tai i bobl ifanc.
- Mae'r Model Tai Cyntaf ar gyfer pobl ifanc yn profi'n llwyddiannus gyda'r nifer o bobl ifanc a gefnogir gan y gwasanaeth yn cynyddu bob chwarter.
- Mae'r data o'r Asesiad Llesiant ar ardal Blaenau Gwent a gwybodaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, 'Y Blaenau Gwent a Garem', wedi'u mapio gan ganiatáu inni ddangos bod blaenoriaethu rhai meysydd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
- Yn ogystal â'r uchod, cynhyrchir astudiaethau achos Gwasanaethau Cymdeithasol yn barhaus gan roi enghreifftiau go iawn o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth, ymarfer gwaith a chanlyniadau, yn gadarnhaol a negyddol, sy'n ein galluogi i adolygu a gwella'n barhaus.

Rydym yn cydnabod y gall pethau fynd yn anghywir weithiau, ac mae'r weithdrefn gwynion yn rhoi cyfle i bobl leisio'u pryderon pan nad ydynt yn fodlon â gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dysgu o'r cwynion hyn i wella'r gwasanaethau sy'n symud ymlaen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn croesawu adborth cadarnhaol a chanmoliaeth a hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o gwynion a dderbynnir gan y gwasanaeth yn ymwneud â phrydlondeb gwybodaeth a chyfathrebu, gyda chanmoliaeth gyffredinol yn ymwneud â'r gefnogaeth gadarnhaol a dderbyniwyd a bod yn ddiwyd a phroffesiynol.

Roedd enghreifftiau o gwynion a dderbyniwyd yn y Gwasanaethau Plant yn ymwneud â theuluoedd yn teimlo nad oeddent yn derbyn adborth gan weithiwr cymdeithasol mewn perthynas â'u plentyn; anhapus â'r diffyg cyfathrebu; a gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio terminoleg anghyfarwydd. Yn y Gwasanaethau Oedolion derbyniwyd enghreifftiau o gwynion ynghylch dadansoddiad mewn cyfathrebu gyda'r person a'r gweithiwr cymdeithasol o ran codi tâl am wasanaethau; heb fod yn ymwybodol o'r Polisi Codi Tâl Tecach; a bod yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniodd staff â sefyllfa sensitif.

Er mwyn parhau i wella gwasanaethau, cynhelir canlyniadau ymchwiliadau cwynion a dysgu oddi wrthynt er mwyn atal y sefyllfa rhag digwydd eto. Yn ystod 2017/18 mae enghreifftiau o ddysgu a nodwyd a chamau gweithredu yn cynnwys:

- Atgoffwyd yr holl staff am bwysigrwydd cyfathrebu â theuluoedd yn brydlon;
- Sicrhau bod cynlluniau cymorth yn eu lle o ddechrau unrhyw leoliadau nas cynlluniwyd sy'n cael eu gwneud;
- Atgoffwyd staff cydweithwyr iechyd a Gofal Cymdeithasol am newidiadau i'r Polisi Codi Tâl Tecach a phwysigrwydd asesiadau ariannol amserol;
- Atgoffwyd staff am bwysigrwydd cydymffurfio â'r Polisiâu Diogelwch Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth;
- Mynychodd staff yr hyfforddiant i gael sgysiau anodd a chafodd prosesau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u gwella.



- Hyfforddiant staff o amgylch gofal a dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phwysigrwydd cyfathrebu da gyda gofalwyr; a
- Mynychodd staff yr hyfforddiant i gael sgysiau anodd a chafodd prosesau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u gwella.

Isod mae rhai enghreifftiau o ganmoliaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaeth:

- Diolch i weithiwr cymdeithasol am yr holl gefnogaeth a roddwyd wrth symud plentyn maeth yn raddol i'r rhieni mabwysiadol;
- Canmoliaeth i weithiwr cymdeithasol am eu diwydrwydd a'u hymarfer;
- Tusw o flodau a roddwyd i weithiwr cymdeithasol fel diolch am y cymorth a ddarparwyd i'r teulu yn ystod achosion llys cymhleth;
- Canmoliaeth i weithiwr cymdeithasol am adeiladu perthynas dda gyda'r teulu;
- Diolch i weithiwr cymdeithasol am eu gwaith caled wrth geisio gweithredu cynllun parhad ar gyfer plentyn i'w galluogi i aros gyda'u teulu;
- Diolch i aelod o staff am y cymorth a ddarparwyd yn ystod cyfnod yr eira a sicrhau bod person sy'n agored i niwed yn derbyn gofal;
- Diolch i ofalwyr am ofalu am y rhai maent yn eu caru, nid dim ond yn gorfforol ond y cariad a'r hoffter a ddangosir gan y gofalwyr; a
- Diolch i'r holl staff am nid yn unig ofalu am aelod o'u teulu ond yn wir am 'fod yn ofalgar'.



# Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai yr Ydym yn eu Helpu

## **Blaenoriaethau**

Trwy gydol 2017/18, bu'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn blaenoriaethu nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt i gefnogi darparu gwasanaethau er mwyn gwella llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu. Dangosir y blaenoriaethau isod ac mae'r Safonau Ansawdd yn dangos lle y gwnaed gwelliannau, lle yr ymdriniwyd â heriau a lle y cyflawnwyd y canlyniadau.

### **Blaenoriaethau'r Gwasanaethau Plant ar gyfer 2017/18 oedd:**

- **Pob tîm i gyfrannu at wella canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Pob tîm yn cyfrannu at y gostyngiad diogel yn nifer y LAC** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Sicrhau bod Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn targedu'r teuluoedd mwyaf bregus ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth o dan y Ddeddf** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Pob tîm i sicrhau bod plant a phobl ifanc Blaenau Gwent yn cael eu diogelu** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Mae angen i'r gweithlu ddeall a chyflawni'r gofynion o dan y Ddeddf** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Rheoli cyllideb y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod y gwariant yn dod o fewn y gyllideb** - Ar ddiwedd y flwyddyn hon roedd y flaenoriaeth hon yn goch (materion arwyddocaol a nodwyd sy'n gofyn am weithredu).

### **Blaenoriaethau'r Gwasanaethau Oedolion ar gyfer 2017/18 oedd:**

- **Mae'r holl Dimau Gwasanaethau Oedolion yn cyfrannu at wella canlyniadau i oedolion sy'n agored i niwed (a'u gofalwyr) sy'n byw ym Mlaenau Gwent** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Mae'r holl dimau Gwasanaethau Oedolion a'n hasiantaethau partner yn sicrhau bod oedolion bregus Blaenau Gwent yn cael eu diogelu** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Sicrhau bod ein gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) / ataliol a chyfleoedd yn y gymuned yn cefnogi'r dinasyddion mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth o dan Ddeddf 2014** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Rheoli Cyllideb Gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod y gwariant yn dod o fewn y gyllideb** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn wyrdd (ar darged).
- **Datblygu Dulliau Darparu Gwasanaethau Amgen ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy fodlau comisiynu integredig / deilliannau i fodloni canlyniadau personol a chefnogi llesiant personol** - Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y flaenoriaeth hon yn ambr (nodwyd materion sydd angen datblygiad).

### **Datblygiad ein Safonau Ansawdd**

Yn ystod asesiad cynhwysfawr o berfformiad ar ddiwedd 2017/18, nodwyd y cyflawniadau a'r heriau canlynol fel rhan o Fframwaith Gwella Rheoli Perfformiad y Cyngor i sicrhau bod yr ardaloedd cywir yn cael eu nodi fel blaenoriaethau wrth symud i 2018/19.

## Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni

Mae'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) wedi parhau i ddatblygu i gefnogi pobl i reoli eu llesiant yn weithredol a gwneud penderfyniadau gwybodus. Rydym yn parhau i weithio gyda phobl fel partneriaid er mwyn atal yr angen am ofal a chymorth a threfnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n atal neu oedi angen pobl am ofal a chymorth.

Dangosodd y canlyniadau o holiaduron adborth dinasyddion y Ddeddf ymateb gadarnhaol i'r cwestiwn 'pobl yn adrodd eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt', gyda 74% o blant yn cytuno â'r datganiad ac roedd 19% yn cytuno weithiau. Cefnogwyd hyn gan yr ymateb i'r cwestiwn, 'pobl yn hapus gyda'r gofal a'r gefnogaeth a gawsant' gyda 80% o blant yn cefnogi'r datganiad hwn a 12% weithiau, *'oherwydd bydd fy ngofalwyr bob amser yn fy helpu bob tro y byddaf angen hynny'*.

Cryfhawyd ymagwedd integredig gyda gwasanaethau hirdymor a chydweithwyr iechyd trwy barhau i gydweithio yn ogystal â chefnogi'r IAA wrth ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth. Enghraifft o hyn yw adleoli Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin sy'n cynnwys Tîm Adnoddau Cymunedol Blaenau Gwent, y Tîm Gofal Cymunedol ac aelodau o Dîm Nyrsio Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r timau hyn, wedi'u lleoli gyda'i gilydd, wedi gwella'r model ataliol ac ymyrraeth gynnar gan fod y ganolfan bellach wedi'i lleoli ar y cyd â Gwasanaeth Gwasanaethau Oedolion IAA a'r Tîm Gofal Cartref.

Ym 2016/17 gweithredwyd ailstrwythuro Tîm Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn lleihau nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau statudol ac i dargedu gwasanaethau ataliol i'r teuluoedd mwyaf agored i niwed er mwyn atal anghenion rhag codi. Fel rhan o'r ailstrwythuro hwn, mae Swyddog Sgrinio a Chyfeirio, sy'n cefnogi'r system ddyletswydd Teuluoedd yn Gyntaf, wedi bod yn ei swydd ers dechrau Rhagfyr 2017. Mae'r swyddog wedi gweithio gyda'r rhai sydd wedi gwneud atgyfeiriad i'r IAA ond nid ydynt yn cwrdd â'r meini prawf am asesiad integredig. Yn dilyn hynny trafodir cwestiwn 'beth sy'n bwysig' lle nodir anghenion cymorth a drafftio cynlluniau cymorth yn unol â manyleb y gwasanaeth. Mae gan Teuluoedd yn Gyntaf ei system ddyletswydd ei hun lle caiff atgyfeiriadau eu cymryd yn uniongyrchol a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar bob atgyfeiriad o fewn 24-awr. Mae'r broses atgyfeirio wedi'i rhaedru fel nad oes rhaid i deuluoedd aros am gefnogaeth.

Mae Blaenau Gwent yn un o bedwar awdurdod Gwent sydd wedi mabwysiadu'r dull cenedlaethol o eiriolaeth yn y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan bob plentyn sy'n dod i mewn i'r system ofal neu a roddir ar y gofrestr amddiffyn plant gyfarfod wyneb yn wyneb gydag eiriolwr annibynnol i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

O fewn Gwasanaethau Oedolion, datblygwyd cynigion i gydgynhyrchu cynllun strategol ar gyfer comisiynu eiriolaeth ar draws Gwent ar gyfer 2019-2024. Bydd hyn yn cynnwys Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol a mathau ehangach o eiriolaeth.

Yn ogystal, roedd gwybodaeth a gasglwyd o holiaduron adborth dinasyddion ein Deddf yn gadarnhaol mewn perthynas â nifer y dinasyddion a gefnogir gan yr adran. Ar y cyfan, roedd ymatebion ein harolwg yn gadarnhaol gyda 80% yn adrodd eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt a 94% yn dweud eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch. Dywedodd un dinesydd, *'yn bendant, heb amheuaeth. Allwn i ddim bod wedi gwneud hebddo. Rwy'n ei werthfawrogi'*.

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl

Yn 2016/17, dywedom fod y Pennaeth Gwasanaeth wedi cyfarfod â Chyngor Dinas Casnewydd i edrych ar eu Tîm Gwasanaeth Asesu a Chefnogi Teuluoedd (Tîm sy'n gweithio gyda theuluoedd y mae eu plant ar gyfrif gofal). Yn dilyn hyn, cymeradwyodd Blaenau Gwent greu Tîm Cefnogi Newid sy'n gweithio i weithredu'r strategaeth i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) yn ddiogel. Mae'r staff bellach yn fedrus mewn amrywiaeth o ymyriadau megis cyfweld ysgogol a mabwysiadu ymagwedd gref at ymarfer. Datblygwyd system o fewn y Gwasanaethau Plant i dynnu sylw at yr achosion hynny ar 'ymyl gofal' i reoli risg yn hyderus ac atal plant rhag dod i mewn i ofal.

Cafwyd canlyniadau positif o waith y tîm, gan gynnwys, un teulu lle rhoddwyd ystyriaeth i gyhoeddi achosion gofal a diddymwyd y broses gyfreithiol. Adsefydlwyd plentyn arall i riant a'r cynllun gofal terfynol i'r Llys yn argymhell Gorchymyn Trefniant Plant (ni fydd y plentyn bellach yn Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol).

Datblygwyd pecyn offeryn ar-lein i gynorthwyo athrawon i nodi ac adrodd pryderon diogelu mewn perthynas â sut y gallai camdriniaeth effeithio ar blant a phobl ifanc wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae'r pecyn cymorth hwn bellach yn cael ei addasu i'w ddefnyddio gan ofalwyr maeth.

Mater cynyddol i blant hŷn ym Mlaenau Gwent yw hunan-niweidio a chydabyddir eu bod yn tueddu i beidio â mynychu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). I gynorthwyo i fynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r tîm 14+ wedi cael hyfforddiant hunan-niweidio ac wedi datblygu cysylltiadau gyda'r nyrs LAC. Datblygwyd offeryn asesu risg newydd a gymerwyd o Gynllun Diogelwch CAMHS ac fe'i defnyddir i lywio cynlluniau llwybr. Yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith diogelu lleol, codwyd ymwybyddiaeth o daflen hunan-niweidio a hunanladdiad Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru. Erbyn hyn, gofynnwyd i'r daflen gael ei dosbarthu i asiantaethau a gynrychiolir ar y grŵp.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol a dinasyddion sy'n cefnogi trwy'r broses o Asesiad Llesiant Gorau wedi'u nodi fel meysydd dysgu hanfodol ar gyfer staff Gwasanaethau Oedolion. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mae yna aelod o staff penodol sy'n gweithio gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddatblygu llwybrau gofal clir sy'n amlinellu cyfrifoldebau unigol ynghyd â phecyn hyfforddi. Mae'r prosiect peilot DoLS / Asesiad Capasiti, a leolir yn Ysbyty Aneurin Bevan, wedi bod yn llwyddiant ysgubol wrth gefnogi staff ABUHB a Gofal Cymdeithasol wrth asesu cleifion sydd heb allu i wneud penderfyniadau am eu hanghenion gofal a chymorth yn y dyfodol.

Nododd archwiliad, a gynhaliwyd gan yr Uned Cyflenwi GIG, feysydd o arfer da, gan gynnwys cydleoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl trwy ddweud eu bod yn integredig iawn gyda pherthnasau gweithio effeithiol rhwng sefydliadau partner. Nodwyd meysydd i'w gwella hefyd megis datblygu targedau cynllunio gofal SMART, bod cynlluniau argyfwng yn gadarn, cofnodi cynnydd tuag at ryddhau a'r angen i wella cadw cofnodion a rennir. Gweithir ar y meysydd hyn y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Cartref Gofal Preswyl Cwrt Mytton i gyflwyno a gweithredu egwyddorion y model gofal a chefnogaeth 'Glöynnod Byw' i newid y diwylliant a'r ymagwedd tuag at ofal dementia. Mae'r matrices hyfforddiant cyfredol ar gyfer staff yn nodi hyfforddiant yn benodol sy'n ymwneud â gofal dementia ac mae'n cynnwys sesiynau ar ymarfer uwch, cefnogi bywydau ac annog unigolion i fyw'n annibynnol. Mae datblygu'r gweithlu wedi gweithio gyda Cwrt Mytton i ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant nad yw'n seiliedig ar ddsbarth ond bydd yn ymgorffori newid agweddau ac ymagweddau at ddementia. Rhan o'r strategaeth yw integreiddio trigolion i'r gymuned a'r gymuned i'r cartref.

Mae Cwrt Mytton hefyd wedi cymryd rhan yn y Peilot Cwmpïadau ABUHB sy'n anelu at leihau nifer y preswylwyr y mae angen eu derbyn i'r ysbyty ar ôl cwmp yn y cartref. Cynhaliwyd adolygiad ym mis Hydref 2017 gyda Chwrt Mytton yn cael ei amlygu fel y cartref sydd wedi gwella mwyaf gyda nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn gostwng yn ddramatig.

Mae'r Awdurdod wedi sicrhau dyraniad Cronfa Gofal Integredig annisgwyl o £58k i beilota prosiect Gofal Brys yn y Cartref i gefnogi'r gostyngiad mewn derbyniadau i'r ysbyty. Bydd hyn yn rhan o gam cyntaf integreiddio'r Gwasanaeth Gofal Cartref a'r Tîm Ailalluogi o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol (CRT).

Bydd Gwasanaethau Oedolion yn cwmpasu adolygiadau gwasanaeth ar gyfer y meysydd gwasanaeth canlynol yn unol â rhaglen effeithlonrwydd ariannol y Cyngor, bydd hyn yn cynnwys: Cwrt Mytton; Tŷ Augusta; Gwasanaeth Byw â Chymorth; ac Opsiynau Cymunedol. Bydd yr adolygiadau hyn yn cychwyn ym mis Ebrill 2018 a byddant yn gwneud argymhellion ar gyfeiriad y gwasanaethau darparwyr mewnol yn y dyfodol o fis Ebrill 2019.

I'r bobl hynny sy'n dod allan o'r ysbyty, mae'n bwysig eu bod yn adennill eu hannibyniaeth cyn gynted â phosib trwy Ailalluogi. Mae 14 o 15 o ddinasyddion wedi lleihau eu pecyn gofal ar ddiwedd cyfnod ailalluogi. Yn arwyddocaol, cynhaliwyd y gostyngiad 6 mis yn ddiweddarach ar gyfer yr unigolion hyn, sy'n cyfateb i 93.33%. Mae hyn yn gynydd o 2016/17 o 12.38%. Ar gyfer yr unigolion hynny nad oedd angen pecyn gofal arnynt bellach ar ddiwedd eu hailalluogi, roedd 76.04%, sef 73 o 96 o unigolion. Mae hwn yn gynydd o 6.23% o 2016/17.

Cefnogir hyn gan y data am oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd gan mai dim ond 2.55 oedd y ffigur sy'n cyfateb i 15 o bobl. Y llynedd, roedd y ffigur yn 1.38, sy'n cyfateb i 8 unigolyn.

Mae gweithgarwch sylweddol yn digwydd mewn perthynas â diogelu yn y Gwasanaethau Plant. Yn ystod y flwyddyn hon, er gwaethaf pwysau gwaith sylweddol, derbyniodd yr holl atgyfeiriadau amddiffyn plant ymateb o fewn 24-awr. Cwblhawyd 90.78% o'r asesiadau o fewn yr amserlenni statudol, cynnydd o'r llynedd, sef 84.53%. Cynhaliwyd 93.7% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol o fewn yr amserlen 15 diwrnod fel sy'n ofynnol dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Cynhaliwyd 98.6% o gyfarfodydd grŵp craidd, sy'n dwyn ynghyd gynllun amddiffyn plant manwl o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd gychwynnol.

Darparwyd adroddiadau ar ddiogelu yn ystod y flwyddyn i'r Cydbwyllgor Craffu Diogelu. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i'r aelodau edrych yn fanwl ar y gweithgarwch diogelu ar draws y Cyngor a rhoi her briodol er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol wedi datblygu cynllun gweithredu i gefnogi LAC. Datblygwyd y blaenoriaethau o fewn y cynllun gweithredu i gefnogi'r 7 Diffiniad o Lesiant fel y nodwyd o dan y Ddeddf, ynghyd ag un cam gweithredu ychwanegol a benderfynwyd ar lefel leol. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â phob elfen o'n llesiant LAC. Pan adroddwyd yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2018, o'r 30 o gamau gweithredu, cwblhawyd 15, roedd 11 ar y gweill, 3 y tu ôl i'r amserlen ac 1 angen gweithredu pellach.

Mae Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion wedi parhau. Mae'r holl staff Gwaith Cymdeithasol yn y Tîm Mabwysiadu bellach wedi derbyn hyfforddiant diogelu lefel 2 er mwyn sicrhau bod yr holl blant a atgyfeirir at y gwasanaeth yn cael eu diogelu. Datblygwyd Polisi Diogelu Corfforaethol newydd gyda staff diogelu Plant ac Oedolion mewn ymgynghoriad ag Addysg er mwyn darparu strwythur llywodraethu clir ac eglurder ar rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.

Mae diogelwch plant yn hollbwysig ac mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio'n galed i sicrhau bod plant yn ddiogel ac, yn bwysicaf oll, yn teimlo'n ddiogel. I gefnogi hyn, dywedodd 90% o blant a gwblhaodd holiaduron y Ddeddf eu bod yn teimlo'n ddiogel ac roedd 8% yn teimlo'n ddiogel weithiau, *'oherwydd mae gen i le hapus a bydd fy ngofalwyr bob amser yn edrych ar fy ôl' ac 'roeddwn bob amser yn teimlo'n ddiogel a sicr'*.

Mae'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn dal i gael eu harchwilio gan yr Uwch Dîm Rheoli Plant. Mae hyn wedi dangos, dros y 12 mis diwethaf, fod hyd yr amser y mae plentyn yn aros ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu o'r llynedd rhwng 170.99 a 256.61. Darn allweddol o ddata a ddefnyddir i fesur cadw plant yn ddiogel yw canran ail-gofrestrïadau plant ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod lleol, ym Mlaenau Gwent ar gyfer 2017/18, roedd y ffigur yn 0.68% ac yn cyfateb i 1 person. Yn 2016/17 roedd y ffigur yn 0%.

Mae Gwasanaethau Oedolion wedi penodi Gweithiwr Cymorth Cam-drin Domestig / Diogelu (ar y cyd â Hafan Cymru) o fewn yr hyb Oedolion IAA i ymgymryd â sgrinio cychwynnol o'r ddyletswydd i adrodd am atgyfeiriadau (Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed). Mae deiliad y swydd yn gweithio'n uniongyrchol â dioddefwyr honedig cam-drin domestig. Gwneir atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth y trydydd sector, ac i gysylltu â gwasanaethau arbenigol o fewn yr hyb IAA megis Gweithwyr Iechyd Meddwl a Chysylltwyr Cymunedol. Mae'r sgrinio a'r dyraniad hwn yn y man cychwyn yn cael effaith gadarnhaol ar ofynion cwrdd â'r Ddeddf ar gyfer gwasanaethau ataliol a hefyd ar adnoddau'r Tîm Diogelu sy'n caniatáu iddynt symud ymlaen ar faterion strategol a gweithredol.

Mae Strategaeth VAWDASV Gwent yn cyfrannu at y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol - 2016 - 2021 a hefyd yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent a'r Cynllun Ardal Rhanbarthol. Cefnogir y Strategaeth gan fframwaith hyfforddiant cenedlaethol sy'n ymwneud â'r holl staff yn yr Awdurdod Lleol. Dechreuodd yr hyfforddiant ym mis Hydref 2017 ac ar ddiwedd mis Mawrth 2018, cwblhaodd 914 o weithwyr yr hyfforddiant. Mae tua 3,027 o weithwyr ar draws y Cyngor sy'n gweithio allan ar gyfradd gwblhau o oddeutu 30% o staff y Cyngor. Cyflwynir gwaith pellach er mwyn cyflawni'r hyfforddiant.

